# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD HYDREF 2019

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 16eg o Hydref, 2019** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSGADFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Yn absenoldeb Michelle Williams, estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan yr is-gadeirydd Bryn Hughes. Yn bresennol roedd Gwilym Thomas, Peter Roberts, Elin Evans, Rhodri Dwyfor, Tom Ellis, Nerys Evans, Jason Hunt ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Michelle Williams, Huw Rowlands, Gwilym Williams ag Aeron M Jones. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | BH yn datgan buddiant ar eitem 6( i) wal afon Gwyled – mater er gwybodaeth felly ddim yn rhagfarnu. |
| **4.** | **Ymweliad gan Arweinydd a Dirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd** |
| | Estynnwyd croeso cynnes i'r Arweinydd, Dyfrig Siencyn, a'r Dirprwy Arweinydd, Dafydd Meurig, o Gyngor Gwynedd.<br><br>Materion a godwyd:<br><u>Ysgolion</u><br>Cyfeiriwyd at y tair ysgol o fewn y gymuned a holwyd beth oedd eu dyfodol. Eglurwyd bod trafodaethau gyda phrifathrawon yn cael eu cynnal yn gyson, gan edrych ar y sefyllfa ariannol, problemau penodi a phwysau gwaith. Eglurwyd fod ystyriaeth i gau Ysgolion sydd gyda niferoedd o dan 10 o blant.<br><br><u>Cyfathrebu</u><br>Eglurwyd bod diffyg ymateb gan rai o adrannau Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith y Cyngor Cymuned yn anodd. Ymholwyd fod gan GG bolisi i ymateb o fewn 10 diwrnod ond nid yw hyn yn digwydd. Gofynnodd DM i'r clerc anfon rhestr o'r adrannau nad oedd yn ymateb er mwyn iddo gysylltu gyda'r swyddogion hynny.<br><br><u>Rhagolygon ariannol</u><br>Mynegwyd pryder y byddai CG yn trosglwyddo mwy o gyfrifoldebau i'r Cynghorau Cymuned yn y dyfodol. Eglurwyd fod cais i Gynghorau Cymuned gymryd cyfrifoldeb am y biniau halen, wedi creu dipyn o broblemau. Gaeaf diwethaf roedd CG yn cyfeirio'r cyhoedd i gysylltu gyda'r Cyngor Cymuned, i lenwi'r biniau er nad oeddynt wedi tanysgrifio i'r cynllun. Eglurwyd fod yswirwyr ag Un Llais Cymru  wedi awgrymu i'r Cyngor Cymuned  beidio â chymryd cyfrifoldeb ohono. Gofynnodd DM os byddai'n cael copi o'r llythyrau hyn. Ychwanegodd NE, mai cyfrifoldeb CG ydi peidio graeanu, ar effaith y mae yn ei gael ar y gymuned.<br><br>Nodwyd fod y sefyllfa ariannol yn cael ei ddyrannu yn ¾ i addysg, gofal henoed, gofal plant a'r digartref. Yn gadael ¼ o'r gyllideb i gynnal a chadw toiledau, llwybrau , thorri gwair ayyb. Ychwanegwyd nad oedd  dim toriadau ar y gweill yn y flwyddyn nesaf.<br><br>Mynegodd GT bryder fod  arian o gynllun Parc Cenedlaethol wedi ei ddefnyddio i dynnu  ffens yng Nghilgwyn er mai CG rhoddodd y ffens yno yn y lle cyntaf. Nodwyd felly nad oedd arian ar oll i adfywio'r Parc Cymunedol yn Rhosgadfan. Cynigiodd D.S. y byddai'n edrych i mewn i'r darn o dir hwn a gwneud ymholiadau am arian grant a fyddai ar gael i'w drin. |

| | |
|---|---|
| | <u>Torri gwair</u><br>Mynegodd EE bryder am gyflwr torri gwair yr ardal. Eglurwyd fod y gwair yn cael ei adael yn flêr ar ochr y ffordd ac nid oedd hyn yn adlewyrchiad da ar y gymuned. Ymatebwyd ei bod rhy gostus i gario'r gwair oddi yno, a byddent yn trefnu i Swyddog o'r adran torri gwair ymweld â'r Cyngor Cymuned.<br><br><u>Sbwriel</u><br>Tynnodd NE sylw at gasglu sbwriel yn yr ardal. Eglurodd DM bod newidiadau yn digwydd i rota o'r 4ydd o Dachwedd ymlaen. Mi fyddai timau newydd yn cael eu ffurfio a byddent yn aros o gwmpas yr un ardal er mwyn i'r trigolion dod i'w hadnabod.<br><br>Cyfeiriodd PR - bod cost ychwanegol wedi ei roi ar rent CCG. Eglurwyd nad oedd gan GG lawer o bŵer mewn trafodaethau gyda CCG bellach. |
| **5.** | **Cadarnhau cofnodion 18.09.19 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gan NE ag eiliwyd gan EE. |
| **6.** | **Materion Misol** |
| | a) NE – Twll yn llwybr Bryngwyn<br>Esboniodd NE nad oedd Cwmni Gwalch wedi bod mewn cysylltiad ynglŷn â'r polion hyd yn hyn. Clerc i ail-gysylltu gyda nhw unwaith eto.<br><br>b) AMJ - Cyfansoddiad a Pholisïau'r Cyngor<br>Cyfansoddwyd polisïau diwygiedig ar gyfer y Cyngor. Penderfynwyd mabwysiadu'r polisïau canlynol:<br>Cod Ymddygiad<br>Rheoliadau Ariannol<br>Rheolau Sefydlog<br><br>Derbyniwyd y polisïau gyda GT yn cynnig a NE yn eilio. Arwyddwyd gan BH yn absenoldeb y Cadeirydd. Ychwanegodd NE bod angen llunio cofrestr buddiant ar gyfer 2019-2020.<br><br>c) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023<br>Yn absenoldeb AMJ, gofynnwyd i'r clerc ei holi am ddiweddariad.<br><br>d) BH - Sefyllfa traffig o flaen Ysgol Rhostryfan<br>Adroddwyd fod gwaith adnewyddu peipen ddŵr ardal Bro Wyled yn cael ei gyflawni dros yr wythnosau nesaf, felly awgrymwyd y byddai'n well gwneud yr asesiad risg mis Ionawr ymlaen.<br><br>e) Problem Llygod – ardal Rhosgadfan<br>Eglurwyd fod sesiwn glanhau wedi ei gynnal yn ardal Rhosgadfan gyda dwy sgip wedi eu darparu. Nodwyd fod llygod dal yn broblem er bod adran iechyd ag amgylchedd wedi ymweld â'r ardal. Gofynnwyd i'r clerc ail-gysylltu gan fod llygoden wedi ei darganfod tu mewn i gar a chreu difrod.<br><br>f) BH - Bro Wyled toriad dwr / byrst datblygu'r beipen ddŵr<br>Cadarnhawyd fod gwaith ar adnewyddu'r beipen yn dechrau'r mis hwn.<br><br>g) Llwybrau cyhoeddus<br>Derbyniwyd llythyr yn rhoi cwyn yn erbyn contractwr torri gwair y Cyngor Cymuned. Gan ei fod yn bygwth dweud wrth yr heddlu, ni all y Cyngor Cymuned roi sylwadau. Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymlaen i DM gan nad oedd ymateb gan yr adran llwybrau. |

h) Mynwent Cefnfaes
Cadarnhaodd y clerc fod tap newydd wedi ei osod yn y fynwent.

i) BH - Cwymp wal gynnal - Afon Gwyled - 11 Bro Wyled Rhostryfan
Er gwybodaeth, adroddodd BH ei fod wedi mynd a'r mater ymlaen at ei gyfreithiwr. Yn dilyn hynny, cadarnhawyd nad ef oedd yn berchen nag yn gyfrifol am y wal na'r afon. CG wedi cymryd cyfrifoldeb ac wedi dechrau ar y gwaith atgyweirio'r wal ac am ad-dalu costau cyfreithiol BH.

j) RD – Cattle grid Rhosgadfan (ger Muriau) – swnllyd. -Cadarnhaodd RD, nad oedd gwaith atgyweirio wedi digwydd hyd yn hyn.

k) GW - Islwyn, Rhostryfan - Problem gyda grating o gyfeiriad Pen Ceunant i sgwâr Bryn Melyn. - Dim ymateb wedi ei dderbyn gan GG hyd yn hyn.

l) Polyn 30mya Llanwnda - Dim ymateb wedi ei dderbyn gan GG hyd yn hyn.

m) BH – toriad trydan – diffodd i ffwrdd am eiliad / ddwy – Derbyniwyd e-bost gan SP Energy, nodwyd fod yr adroddiad yn uniaith Saesneg

n) MW – twmpath pridd top Rhosgadfan - Pridd dal yno – mwy o bridd – fly tipping Caeau Uchaf, Rhosgadfan.

## 7. Derbyn Adroddiadau

**Derbyn Adroddiadau**

a) Adroddiad gan Dion, Prosiect Uwch Gwyrfai
Derbyniwyd adroddiad gan Dion, ynglŷn â'r holl brosiectau oedd wedi eu cyflawni hyd yn hyn. Penderfynodd GT i edrych dros yr adroddiad ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

c) Adroddiad HR – Cyfarfod Un Llais Cymru
Darllenodd yr is-gadeirydd gynnwys yr adroddiad.

## 8. Materion Ariannol

**a) <u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar y 16eg o Hydref, 2019</u>**

**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (18.09.19) | 48,630.99 |
| - Trosglwyddo £3000 i'r cyfrif cyfredol | - 3,000.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 16eg o Hydref, 2019** | **£45,630.99** |

**<u>2. Cyfrif Siec</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (18.09.19) | **2716.91** |
| + trosglwyddo £3000 o'r cyfrif cadw | + 3000.00 |
| - 101437 Cyflog y Clerc - Medi 2019 | 465.20 |
| - Cyllid y Wlad – Medi 2019 | 105.80 |
| - 101439 Wyn Williams – Torri gwair | 918.00 |
| - 101438 A. Hughes-Jones, Dyson (payroll) | 204.00 |

| | |
|---|---|
| | **Balans ar derfyn busnes 16eg o Hydref, 2019** **£4023.91**<br><br>**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 16eg o Hydref, 2019**<br><br>Cyflog y Clerc - Hydref 2019 465.40<br>Cyllid y Wlad – Hydref 2019 105.60<br>Arwel Evans – tap y fynwent 69.60<br>Gwalch Cyf - Cynnal a chadw'r fynwent 2296.22<br><br>**Cyfanswm** **£2936.82**<br><br>**b) Adroddiad Archwiliad BDO**<br>Cyfeiriwyd at gynnwys yr adroddiad a phenderfynwyd gweithredu ar beth mae'r archwilwyr wedi ei argymell. Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. |
| **9.** | **Materion Cynllunio** |
| | Dim ceisiadau i'w trafod yn y cyfarfod hwn. |
| **10.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>a) Cynllun Lliniaru Llifogydd Rhostryfan<br>Atgoffwyd y cynghorwyr o ddyddiad a lleoliad y cyfarfod.<br><br>b) E-bost gan glerc Cyngor cymuned Llandwrog - holi cymunedau eraill<br>Derbyniwyd e-bost gan glerc Cyngor Cymuned Llandwrog yn holi beth oedd cynllun y Cyngor Cymuned ynglŷn â Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016, gan fod y cynllun i fod mewn lle erbyn diwedd 2019? Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r cynghorau cymuned eraill. |
| **11.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | RD –gwydrau o gwmpas yr ardal + plant yn dwyn troliau ail-gylchu<br><br>BH – Mabwysiadu Rheolau Mynwentydd<br><br>Penderfynwyd peidio â chael cyfarfod llawn mis Rhagfyr, ond byddai cyfarfod brys yn cael ei gynnal os oedd yr angen yn codi.<br><br>**Dyddiad: 20fed o Dachwedd, 2019**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSTRYFAN** |